# Cymunedau gwyrdd

## Ymunwch ag ymgyrch Man Gwyrdd Cymru er mwyn helpu i reoli dŵr glaw a gostwng problemau llifogydd a llygredd

### Cyngor cartrefi a gerddi

Mae'r hinsawdd yn newid, gyda glaw trwm yn disgyn yn fwy aml ar ardaloedd trefol sy'n llawn ffyrdd, meysydd parcio, adeiladau, gerddi llwybrau brics ac ati. Gyda llai o fannau gwyrdd i ddraenio dŵr i ffwrdd, mae dŵr glaw yn gynyddol yn cyrraedd carthffosydd cyhoeddus, sy'n gallu gorlifo ac achosi llifogydd carthion a llygredd.

Ar draws y byd mae cynllunwyr a pheirianwyr yn gweithio i ostwng risgiau llifogydd yn dilyn stormydd trwm, sydyn. Bydd rhaid i ni daclo'r fath broblemau cyn i fwy ohonom ddioddef llifogydd a llygredd.

Er bod Dŵr Cymru wedi ymrwymo i gyfrannu at y broses honno, bydd rhaid i bob person, pawb sy'n defnyddio dŵr - teuluoedd, adeiladwyr, cynllunwyr a gwleidyddion – gyfrannu os am reoli'r hyn bydd natur yn taflu atom yn y blynyddoedd i ddod.

Dyma rai syniadau ymarferol i'ch helpu i wneud gwahaniaeth:

- Ystyried gosod llwybrau neu addasu patio? Beth am ddefnyddio graean neu ddeunydd mandyllog fel bod dŵr glaw yn mynd i'r tir yn hytrach na rhedeg i garthffosydd?
- Casglu dŵr glaw mewn casgen er mwyn ei ddefnyddio yn yr ardd? Ewch i **www.dwrcymru.com** am fanylion ein cynnig prynu un gasgen, derbyn un arall am hanner pris.
- Ystyried casglu dŵr glaw er mwyn gostwng defnydd o'ch cyflenwad dŵr, er enghraifft i fflysio'r toiled?
- Os yn adeiladu estyniad neu gartref newydd, cynllunio fel bod y dŵr glaw yn rhedeg i'r ardd a dyfrio planhigion neu i ffosydd cerrig os yn addas.
- Ble'n addas, beth am ddatgysylltu pibellau draenio o'r system garthffosiaeth er mwyn dyfrio planhigion yn uniongyrchol?
- Gosod planhigion sy'n amsugno llawer o ddŵr yn eich gardd a chreu gerddi dŵr.

Manylion pellach am reoli dŵr glaw yn adran "Man Gwyrdd Cymru" gwefan Dŵr Cymru **www.dwrcymru.com** – yn cynnwys cartref rhyngweithiol gyda linciau i gyngor a gwybodaeth bellach.

Dŵr Cymru
Welsh Water